



## Gwasgariad hadau ac eginiaid: Gweithgareddau i grwpiau addysg

### Barod i dyfu

Trafodwch gyda'r dysgwyr beth yw anghenion sylfaenol hedyn wrth iddo dyfu'n blanhigyn – gofod, golau, dŵr a maetholion.

Dywedwch wrth y plant eu bod i gyd (heblaw am un) yn fes cwsg sy'n cuddio yn y pridd, ac yn aros hyd y gwanwyn i dyfu. Neilltuwch ardal benodol sy'n weddol agored, gwastad a gwag ar gyfer y gweithgaredd.

Yn yr ardal honno, dylid gosod bwcedi neu gynwysyddion gyda lluniau o heulwen, dŵr, maetholion a gofod arnynt ym mhob cornel. Dylid rhoi cardiau gyda lluniau o heulwen, dŵr, maetholion a gofod wedi'u lamineiddio yn y bwcedi.



Mae'n rhaid i bob 'mesen' redeg/cerdded o fewn yr ardal benodol i ymweld â phob bwced a chasglu un cerdyn i bob un o'r anghenion sy'n hanfodol i dyfu. Unwaith eu bod wedi casglu un cerdyn i bob un o'r pedwar angen, byddant yn gallu tyfu, felly dylent sefyll yn llonydd ar ffurf coeden.

Tra bod yr hadau yn ceisio tyfu, bydd gwiwer neu sgrech y coed yn mynd o amgylch yn ceisio bwyta'r mes – os yw'r wiwer/sgrech y coed yn eu taro, bydd yn rhaid iddynt naill ai eistedd neu blygu i lawr. Yn dilyn y gweithgaredd hwn, trafodwch effaith ysglyfaethwyr ar gyfraddau goroesi.

### Adnoddau sydd eu hangen:

- Lle diogel i redeg
- Bwcedi neu gynwysyddion
- Lluniau o anghenion hanfodol hadau x digon i'r plant gasglu un o bob un
- Siaced liwgar neu fwgwd i ddynodi'r wiwer/sgrech y coed

### Cuddio a hadu

Bydd y gêm hon yn rhoi cyfle i blant feddwl sut mae hadau mawr (concyrs a mes) yn cael eu gwasgaru gan famaliaid bach.

Rhowch resinen neu syltana i bob plentyn. Dywedwch wrthynt eu bod yn wiwerod a bod y syltana yn rhan o'u stôr o fwyd. Neilltuwch ardal benodol sy'n weddol agored, gwastad a gwag ar gyfer y gweithgaredd a dywedwch wrthynt am guddio eu syltana rhywle yn yr ardal hon.

Ar ôl cuddio eu rhesinen/syltana, ewch â'r plant i ardal arall a gadewch iddynt brofi gweithgaredd arall am o leiaf hanner awr (ond hirach os yn bosibl). Yna ewch yn ôl i'r ardal wreiddiol a rhowch bum munud i'r plant ddod o hyd i'w rhesinen/syltana.



Ni fydd llawer ohonynt yn gallu dod o hyd iddynt. Os na fydd anifeiliaid yn gallu dod o hyd i'w stôr o hadau, gofynnwch i'r plant pam y gallai hynny fod yn bwysig i'r planhigyn?

### **Adnoddau sydd eu hangen:**

- Rhesins/syltanas

### **Ditectifs hadau**

Dylai arweinydd y grŵp ddangos amrywiaeth o hadau i'r dysgwyr ac esbonio bod hadau o bob lliw, llun a maint ar gael.

Dylid rhoi amser i'r dysgwyr edrych o amgylch y safe am dystiolaeth o hadau wedi'u gwasgaru.

Sawl dull neu fath gwahanol o hadau allan nhw eu darganfod?

Rhowch daflen gyda lluniau hadau iddynt (mae gan FSC daflenni ar ffrwythau a gwasgariad hadau).

Dylai'r dysgwyr wedyn grwpio hadau ar hambyrddau didoli yn ôl eu dull gwasgaru. Ar ôl didoli'r hadau yn ôl eu dull gwasgaru, gallent wedyn ddidoli pob grŵp ymhellach yn ôl rhywogaeth. Dewch ynghyd – trafodwch beth a ddarganfuwyd.

### **Adnoddau sydd eu hangen:**

- Bagiau neu botiau ar gyfer casglu
- Hambyrddau sortio

### **Campfa hadau**

Nod y gweithgaredd hwn yw annog y plant i feddwl sut caiff hadau eu gwasgaru a'u trawsgludo.

Trafodwch y gwahanol ddulliau o wasgaru hadau gyda'r plant. Gofynnwch i rai plant arddangos pob dull drwy symudiadau. Ar ôl trafod pob un, gwaeddwch y dulliau allan ar hap i'r plant eu hactio:

### **Hadau sy'n cael eu gwasgaru gan y gwynt:**

- Dant y llew – Plant yn meimio chwythu dant y llew
- Mae hadau'r sycamorwydden yn troelli yn y gwynt fel hofrenyddion – plant yn troelli gyda'u breichiau yn syth allan
- Mae hadau castanwydden y meirch (concyrs) yn cwmpo ac yn bownsio – plant i feimio hyn
- Mae pennau'r pabi yn siglo yn y gwynt – yna mae'r hadau yn cwmpo allan ac yn rhoio – dylai'r plant sefyll yn eu hunfan a siglo eu cyrff





Caiff rhai hadau eu gwasgaru gan ddŵr: e.e. dafnau o law yn treiglo neu afonydd:

- Conau gwern – symudiad nofio

#### **Hadau sy'n cael eu gwasgaru gan anifeiliaid:**

- Mae gwiwerod yn casglu cnau ac yn eu claddu yn y ddaear; mae adar yn bwyta aeron ac yn ysgarhu'r hadau eto. Gall y plant feimio bod yn wiwerod ac adar (gallwch chi benderfynu os ydych am ddweud wrthynt sut yn union gaiff hadau eu gwasgaru gan adar).
- Mae hadau gludiog fel pennau pigog yn glynu wrth flew anifeiliaid a dillad pobl ac yn cael eu gwasgaru fel hyn – dylai un plentyn ddal ymlaen i goes neu fraich plentyn arall.
- Mae hadau yn cael eu gwasgaru wrth i anifeiliaid ysgarhu – chi sydd i benderfynu beth i'w wneud gyda hyn!



#### **Hadau sy'n tasgu wrth i'r codennau ffrwydro:**

- Naid seren fawr yn yr awyr, curo dwylo uwch y pen a gweiddi "bang".

#### **Adnoddau sydd eu hangen:**

- Gallech godi lluniau wedi'u lamineiddio o'r dull neu'r hedyn i atgoffa'r plant o'r symudiadau, ond nid yw hyn yn hanfodol.

#### **Gêm: dulliau gwasgaru hadau**

Cyn chwarae'r gêm hon, dylech ddarllen taflen 'Gwasgaru hadau – gwybodaeth' i gael gwybodaeth gefndir.

Dylid ysgrifennu dulliau gwasgaru ar gardiau a'u lamineiddio. Dylid cael lluniau o'r dulliau gwasgaru neu luniau o'r coed/planhigion perthnasol sy'n defnyddio'r dulliau a drafodwyd ar gardiau a'u lamineiddio. Wedyn, dylid cymysgu'r cardiau a'u gosod ar y llawr.

Neilltuwch ardal benodol sy'n weddol agored, gwastad a gwag ar gyfer y gweithgaredd. Mewn timau, ac yn gweithio fel ras gyfnewid, dylai'r plant redeg a chasglu cerdyn ysgrifenedig gyda dull gwasgaru a cherdyn gyda llun. Ar ôl iddynt gasglu'r holl gardiau angenrheidiol, dylai'r timau baru'r cardiau ysgrifenedig a'r cardiau lluniau. Y tîm cyntaf i baru'r holl gardiau yn gywir sy'n ennill.

#### **Adnoddau sydd eu hangen:**

- Cardiau gwasgaru hadau wedi'u lamineiddio.

#### **Gêm: o hedyn i goeden**



Dull tebyg i'r gêm gwasgaru hadau uchod. Cardiau gyda lluniau o goed wedi'u lamineiddio a chardiau o hadau'r coed hynny wedi'u lamineiddio, ac wedi'u gwasgaru ar y llawr.

Neilltuwch ardal benodol sy'n weddol agored, gwastad a gwag ar gyfer y gweithgaredd. Mewn timau, ac yn gweithio fel ras gyfnewid, dylai'r plant redeg a chasglu cerdyn hadau a cherdyn coeden. Ar ôl iddynt gasglu'r holl gardiau angenrheidiol, dylai'r timau baru'r cardiau cywir gyda'i gilydd. Y tîm cyntaf i baru'r holl gardiau yn gywir sy'n ennill.

**Adnoddau sydd eu hangen:**

- Cardiau hadau/coed wedi'u lamineiddio.